YSGOL PENRHYN-COCH

Croeso

Dyma ni ar gychwyn blwyddyn ysgol newydd yn croesawu pawb yn ôl gan roi croeso arbennig i'r disgyblion newydd sef – Lucy Cookson, Rhydian Morgan, Sinead, Brett a Dean Nickless. Croeso cynnes iawn i Mrs Bethan James sydd yng ngofal Dosbarth 2 am ddau dymor. Ein dymuniadau gorau iddi hi ac Erfon ar eu priodas yn ddiweddar.

Chwaraeon

Mae gweithgareddau pêl-droed a hoci wedi ail gychwyn unwaith eto. Llongyfarchiadau i Dylan Morgan sydd wedi cael ei ddewis i chwarae pêl-droed dan un ar ddeg i dîm cynradd Aberystwyth.

Mae'r gwersi beiciau yn mynd rhagddynt yn hwylus. Sylwer bod yr ysgol wedi cael sied feics newydd – ein diolch i'r Awdurdod Addysg Ceredigion.